# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## NILC Ardystiedig Microsoft: Hanfodion Azure



**Yn gryno**

Bydd y cwrs undydd hwn yn cyflwyno gwybodaeth sylfaenol ar gysyniadau Azure; gwasanaethau craidd Azure; datrysiadau ac offer rheoli craidd; diogelwch cyffredinol a diogelwch rhwydwaith; nodweddion llywodraethu, preifatrwydd a chydymffurfiaeth; Rheoli costau Azure a chytundebau lefel wasanaeth.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser rhad ac am ddim gyda dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un dros 19 mlwydd oed, sydd yn byw yng Nghymru ac sydd yn gyflogedig. Nid yw'r terfyn cyflog arferol o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.

...unigolion sydd eisiau dangos gwybodaeth sylfaenol am wasanaethau yn y cwmwl a sut mae Microsoft Azure yn darparu'r gwasanaethau hynny.

**Cynnwys y cwrs**

Cyflwynir y cwrs hwn ar ffurf ystafell ddosbarth rithwir. Mae ystafelloedd dosbarth rhithwir yn cyfateb i gyrsiau ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, ond maent yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ar-lein.

Hyd y Cwrs: 1 diwrnod

Mae'r cwrs yn cynnwys y modiwlau canlynol:

Modiwl 1: Cysyniadau'r Cwmwl

Modiwl 2: Gwasanaethau Craidd Azure

Modiwl 3: Datrysiadau Craidd

Modiwl 4: Nodweddion diogelwch a rhwydweithio cyffredinol

Modiwl 5: Manylion adnabod, Llywodraethu, Preifatrwydd a Chydymffurfiaeth

Modiwl 6: Prisio a Chylch Bywyd Azure

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, bydd myfyrwyr yn gallu:

Trafod hanfodion cyfrifiadura cwmwl ac Azure, a sut i ddechrau ar danysgrifiadau a chyfrifon Azure.
Disgrifio manteision defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl, dysgu i wahaniaethu rhwng y categorïau a'r mathau o gyfrifiadura cwmwl, a sut i archwilio'r amryw gysyniadau, adnoddau, a therminoleg sy'n angenrheidiol i allu gweithio gan ddefnyddio Azure.
Amlinellu'r gwasanaethau craidd sydd ar gael gan Microsoft Azure.
Trafod y datrysiadau craidd sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o offer a gwasanaethau Microsoft Azure.
Disgrifio'r nodweddion diogelwch cyffredinol a diogelwch rhwydwaitha sut y gellir defnyddio'r amryw wasanaethau Azure i helpu i sicrhau bod eich adnoddau cwmwl yn ddiogel, yn gadarn ac yn ddibynadwy.
Trafod nodweddion adnabod, llywodraethu, preifatrwydd a chydymffurfiaeth, a sut y gall Azure eich helpu i sicrhau mynediad at adnoddau yn y cwmwl, goblygiadau adeiladu strategaeth lywodraethu yn y cwmwl a sut mae Azure yn cadw at safonau rheoleiddio a chydymffurfio cyffredin.
Trafod y ffactorau sy'n dylanwadu ar gost, yr offer y gellir eu defnyddio i helpu i amcangyfrif a rheoli eich gwariant yn y cwmwl a sut y gall cytundebau lefel wasanaeth (service-level

agreements - SLAs) Azure effeithio ar eich penderfyniadau wrth ddylunio apiau.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gan y cwrs hwn unrhyw ragofynion ffurfiol. Cynlluniwyd y cwrs ar gyfer unigolion sydd eisiau dangos gwybodaeth sylfaenol am wasanaethau cwmwl a sut mae Microsoft Azure yn darparu'r gwasanaethau hynny.

Bydd angen mynediad at y rhyngrwyd, cyfrifiadur Windows a gwegamera/meicroffon arnoch chi

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Un nod y rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad gyrfa o safon i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac ar ôl eu haddysg.

Cyn cael eich ymrestru ar eich cwrs a ariennir gan PLA, byddwn yn trafod cynllun dysgu unigol â chi er mwyn sicrhau eich bod wedi ystyried y llwybr dysgu cywir.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd cysylltiedig
profiad blaenorol yn y diwydiant neu'r maes
dyheadau gyrfa
dyrannu'r amser a fydd ei angen
mynediad at y rhyngrwyd, cyfrifiadur Windows a gwegamera/meicroffon

Bydd hyn hefyd yn cynnwys trafodaeth benodol ar y meysydd isod ar gyfer y cwrs:

unrhyw brofiad blaenorol gyda chyfrifiadura cwmwl
y defnydd o unrhyw blatfformau cwmwl megis AWS, Google Cloud neu Azure
diddordeb mewn dilyn cymwysterau Azure ychwanegol